**EITEM AR YR AGENDA: 6**

# PANEL GWEITHREDOL
# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Tachwedd 2012**

## YR OPSIYNAU O RAN Y GYLLIDEB 2013-14

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi'r diweddaraf i Aelodau'r Panel Gweithredol am y cynnydd a wnaed wrth ddatblygu cyllideb ddrafft yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer 2013/14.

## Y Cefndir

2 Yng nghyfarfod diwethaf y Panel Gweithredol, cytunodd yr aelodau i gefnogi strategaeth ariannol yr Awdurdod, fel y'i nodir yn ei gynllun ariannol tymor canolig. O ganlyniad i hynny, mae'r rhagdybiaethau sydd yn yr adroddiad hwnnw wedi eu defnyddio i greu'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2013-14, a chaiff ei chyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub yn Rhagfyr 2012.

3 Y bwriad yw cadw'r gyllideb wedi ei rhewi fel arian parod ar £32 miliwn yn y flwyddyn ariannol nesaf, sef trydedd flwyddyn y cynllun ariannol tymor canolig tair blynedd. Er mwyn cwrdd â'r costau chwyddiant cynyddol, bydd angen sicrhau £800,000 yn rhagor o arbedion. Gwneir hyn trwy leihau'r gyllideb ar gyfer diogelwch cymunedol £50,000 yn rhagor, lleihau swyddi staff cefnogol £180,000, a sicrhau £500,000 arall trwy'r trefniadau cylchrestru wrth i ddiffoddwyr tân ymadael a pheidio â phenodi neb yn eu lle. Daw'r balans o £70,000 o linellau eraill yn y gyllideb.

**Gwybodaeth**

4 Yn y cyfarfod blaenorol, penderfynodd yr Aelodau hefyd i nodi'r risgiau o ran gosod cyllideb gytbwys, a chytuno i dderbyn rhagor o wybodaeth os gwireddir y risgiau posibl hynny.

5 Roedd y risgiau hynny'n ymwneud â'r siawns o roi dyfarniad cyflog i weithwyr yn 2012, lleihau neu gael gwared ar grantiau uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, a chanlyniad y setliad dros dro i lywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru.

6 Ar 12 Medi 2012, cyhoeddodd Cyd-Gyngor yr NJC, sef cyflogwyr cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub, ei fod wedi cytuno ar 1% o ddyfarniad cyflog wedi ei ôl-ddyddio i 1 Gorffennaf 2012, a hynny ar gyfer pob aelod o staff ar delerau ac amodau'r "llyfr llwyd". Bydd yr Awdurdod yn gallu ariannu'r cynnydd hwn oherwydd bod cynnydd canrannol bychan wedi ei gynnwys o fewn y gyllideb syflaenol ar gyfer 2012-13, a bydd yn rhan o'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2013-14. Ni fu unrhyw arwydd o ddyfarniad cyflog ar gyfer staff cefnogol, diogelwch tân cymunedol a deddfwriaethol ar delerau ac amodau y "llyfr gwyrdd" na'r "llyfr aur".

7 Ers cyfarfod diwethaf y Panel Gweithredol, mae'r Awdurdod Tân ac Achub wedi derbyn gwybodaeth bellach am arian grant uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Ar 8fed Tachwedd 2012 cadarnhawyd fod arian grant wedi ei ganiatáu ar gyfer Mentrau Lleihau Risg Cymunedol yn 2012-13, ar wahân i gyllido gwrthdrawiadau ar y ffyrdd a chyllido Partneriaeth Gymunedol (oddeutu £10,000 ymhob ardal awdurdod lleol). Bydd yr arian yma yn amodol ar y tri ATA yn cytuno, gyda Llywodraeth Cymru, ar dargedau ar sail canlyniadau sy'n gyraeddadwy. Nid ydym wedi derbyn unrhyw wybodaeth am arian grant ar gyfer unrhyw flynyddoedd yn y dyfodol. Nid yw cyllideb ddrafft ATAGC ar gyfer 2013-14 yn cynnwys unrhyw gyllid ychwanegol i gefnogi'r gweithgareddau hynny sydd, ar hyn o bryd, yn cael eu hariannu trwy grantiau uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

8 Amlygwyd pwysau ychwanegol yn ystod y flwyddyn, sef yr elfen bensiwn o Reoliadau Gweithwyr Rhan Amser (Atal Triniaeth Llai Ffafriol). Ceisir eglurhad am y ffordd i gyfrifo darpariaeth ddarbodus ar gyfer yr ymrwymiad hwn.

9 Ar 16 Hydref cyhoeddwyd y setliad dros dro i lywodraeth leol. Bu cryn drafod yn gyhoeddus am y brigdoriant o £10.174 miliwn sydd wedi ei dynnu o'r setliad er mwyn ffurfio grant penodol newydd ar gyfer cydweithio rhanbarthol. Fodd bynnag, cyfwerth â 0.25% o'r Cyllid Allanol Cyfun (*Aggregate External Finance*) ar gyfer 2013-14 yw hyn, ac ni fydd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ailedrych, ar hyn o bryd, ar ei ragdybiaethau o ran cynllunio ariannol.

## Argymhellion

10 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub ddilyn y modd y cytunwyd arno eisoes ar gyfer sichrau'r arbedion hynny;
(ii) nodi'r risgiau o ran gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2013-14;
(iii) derbyn rhagor o wybodaeth, os oes datblygiadau pellach ynglŷn â'r risgiau posibl hynny.